

Ymgynghoriad Ail-lunio Gwasanaethau 2014/15 – Adborth

Cam 1 (Mai/Mehefin 2013):

Ymgynghori ar safbwyntiau lefel uchel ynglŷn â sut y gallai'r Cyngor leihau gwariant, cynyddu incwm a gwella effeithlonrwydd

Negeseuon Allweddol	Ein Hadborth
Blaenoriaethu gwella effeithlonrwydd	<p>Er 2010, mae'r Cyngor wedi cyflawni arbedion effeithlonrwydd parhaus blynyddol arwyddocaol ac mae'n parhau i flaenoriaethu effeithlonrwydd sy'n gwella. Mae'r prosiectau'n cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none">• Adolygu'r holl wasanaethau ledled y sefydliad er mwyn canfod dulliau mwy effeithlon o weithio a chyfyngu gwastraff i wella'r gwerth am arian.• Gwella'r dull y byddwn yn prynu a gwerthu gwasanaethau gan gyflenwyr drwy adolygu costau cyflenwyr cyfredol, lleihau gwario heb gontract, cynyddu cydymffurfiaeth â phrosesau prynu, lleihau nifer y cyflenwyr a chyflawni buddiannau drwy wasanaeth caffael cenedlaethol.• Sefydlu dull arloesol ledled y Cyngor, wedi'i gydlynu a gyda strwythur ar gyfer y modd y byddwn yn gweithio gyda sefydliadau eraill ac yn eu hariannu i ddarparu gwasanaethau ar ran y Cyngor.• Adolygu ein gofod swyddfa a symud tuag at ddull mwy symudol o weithio er mwyn lleihau pwysau ar ofod swyddfa a'n galluogi i adael yr adeiladau nad oes mo'u hangen bellach a gwella gwasanaeth cwsmer.• Darparu'r mwyafrif o'r cyswllt gyda'r cwsmeriaid drwy ein canolfan gyswllt 'Galw Wreccsam', gwella ein gweithdrefnau cwyno gan ddysgu o gamgymeriadau, a buddsoddi yn ein gwefan er mwyn gwella ein gwasanaethau ar-lein.
Ystyried darparu gwasanaethau'n wahanol	<p>Mae'r Cyngor yn gweithio gyda nifer o sefydliadau sector cyhoeddus eraill i ddarparu nifer o wasanaethau ar y cyd a bydd yn parhau i chwilio am gyfleoedd i wneud hynny. Mae</p>

esiemplau'n cynnwys:

- **Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru** – gwasanaeth cyfunol gan dimau mabwysiadu awdurdod lleol yn Wrecsam, Sir y Fflint, Sir Ddinbych, Conwy, Gwynedd ac Ynys Môn – gan weithio gyda'i gilydd er mwyn canfod teuluoedd lleol ar gyfer plant lleol yng Ngogledd Cymru.
- **Gwasanaeth Effeithlonrwydd a Gwella Ysgolion Rhanbarthol Gogledd Cymru (GwE)** – sydd wedi'i sefydlu i weithio mewn partneriaeth gydag ysgolion ac awdurdodau lleol ledled Gogledd Cymru er mwyn sicrhau fod safonau addysg yn gwella ac yn gyson ledled y rhanbarth.
- Gofal Cymdeithasol i Oedolion yn gweithio'n agos gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ac yn symud tuag at fwy o gydweithio ar gyfer **gwasanaethau gofal canolraddol** er mwyn darparu cymorth yn y cartref er mwyn lleihau'r niferoedd sy'n cael eu derbyn i aros yn yr ysbyty a hwyluso gadael yr ysbyty'n gynt.
- Gweithio gyda'r **Cynghorau Cymuned** i weld lle y gellir darparu gwasanaethau o fewn y gymuned, megis canolfannau cymunedol, meysydd chwarae a hebryngwyr croesfannau ysgol, ac annog cyfrifoldeb cymunedol ehangach.
- Ystyried rhannu'r amrywiaeth o **adeiladau sydd yn y gymuned** gan y Cyngor a rhai nad ydynt yn perthyn i'r Cyngor i ddarparu amrywiaeth o weithgareddau.
- Mae'r Cyngor hefyd yn ymchwilio'r posibilrwydd o sefydlu Cwmni Masnachu Awdurdod Lleol (LATC) sydd wedi'u sefydlu mewn nifer o ardaloedd eraill yn y DU ond yn brin yng Nghymru. Byddai hyn yn ddull arloesol o ddarparu gwasanaethau gan alluogi'r Cyngor i gynhyrchu incwm drwy fasnachu, er mwyn lleihau'r angen i ganfod arbedion a thorri gwasanaethau. Byddai hyn yn caniatáu i'r Cyngor uno elfennau gorau'r arferion busnes gan gadw gafael tynn ar

	yrwyr gwasanaethau cyhoeddus.
Lleihau cost y gweithlu a Chynghorwyr	<ul style="list-style-type: none"> • Yn dilyn blynyddoedd o ail-lunio gwasanaethau, mae'r Cyngor wedi parhau i leihau'r Uwch Reolwyr. Mae gennym yn awr un o'r strwythurau rheoli awdurdod lleol lleiaf yng Nghymru, gyda phrif weithredwr, tri chyfarwyddwr ac wyth pennaeth adran. Mae'n hanfodol fod gan yr awdurdod ddigon o adnoddau o'r ansawdd cywir i arwain y newidiadau i'r gweithlu a'r gwasanaethau o ganlyniad i doriadau cyllid na ragwelwyd. • Bydd y Cyngor yn parhau i leihau cost cyffredinol y gweithlu yn unol â chynlluniau i ail-lunio gwasanaethau drwy gyfuniad o reoli swyddi gwag, diswyddiad gwirfoddol, ymddeoliad cynnar gwirfoddol ac ailstrwythuro. • Ni all y Cyngor adolygu Aelodau'r Cyngor eu hunain, yn ôl cyfraith cyfrifoldeb Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru yw hyn. Mae Adran 29 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) Cymru 2013 yn rhoi dyletswydd ar y Comisiwn i adolygu trefniadau etholiadol ar gyfer pob ardal Awdurdod Lleol o leiaf unwaith bob deng mlynedd. Mae trefniadau etholiadol Awdurdod Lleol yn cael eu diffinio yn Adran 29 (9) o'r Ddeddf ac yn cynnwys, ymysg pethau eraill, ystyried nifer aelodau'r Cyngor. • Mae'r amrywiaeth o Lwfansau a threuliau Cynghorwyr, ac unrhyw gynnydd perthnasol, hefyd yn cael eu penderfynu'n genedlaethol gan Banel Tâl Annibynnol Cymru.
Cynyddu incwm er mwyn lleihau'r arbedion sydd eu hangen	<ul style="list-style-type: none"> • Mae canfod incwm ychwanegol neu gynhyrchu ffrydiau incwm newydd yn bwysig ar gyfer yr holl Gynghorau gan ystyried y toriadau cyllideb sylweddol sydd o'n blaenau. • Mae angen i'r Cyngor archwilio dulliau o gynyddu incwm drwy: Brisiau ar gyfer y gwasanaethau sy'n cael eu darparu lle bo'n briodol; ffynonellau cyllid allanol megis grantiau; datblygu cyfleoedd busnes a ffrydiau incwm newydd; amrywio gwasanaethau; ehangu gwaith partneriaeth a dull

	<p>mwy llym o weithio.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Er bod gan y Cyngor y pŵer i osod pris am nifer o wasanaethau, er enghraifft mae Deddf Llywodraeth Leol 2003 yn caniatáu i'r Cyngor osod pris ar wasanaethau dewisol(y rhai nad oes yn rhaid i'r Cyngor eu darparu yn ôl cyfraith), mae cyfyngiadau'n cael eu gorfodi gan Lywodraeth Cymru sy'n cyfyngu'r gallu i osod pris am wasanaethau penodol.
<p>Lledaenu'r arbedion ar draws y Gwasanaethau</p> <p>(Fodd bynnag, ffafrio llai o arbedion mewn Gofal Cymdeithasol a Gwasanaeth Atal Plant a Dysgu Gydol Oes a Gofal Cymdeithasol Oedolion)</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Nid oes un datrysiad syml fydd yn darparu'r arbedion sydd eu hangen i ddiwallu toriadau i'r gyllideb, felly mae'r Cyngor yn defnyddio dull cynhwysol sy'n cynnwys cyflawni arbedion ar draws y sefydliad cyfan. Fodd bynnag, rydym yn blaenoriaethu cefnogaeth ar gyfer y rhai mwyaf diamddiffyn yn ein rhaglen Ail-lunio Gwasanaethau ac mae'r arbedion isaf yn dod o wasanaethau megis Gofal Cymdeithasol Plant ac Oedolion ac Ysgolion.

Cam 2 (Tachwedd/Rhagfyr 2013):

Ymgynghori ar gynigion drafft ar y gyllideb ar gyfer blwyddyn ariannol 2014/15.

Gweler Atodiad 1 ar ddiwedd yr adroddiad i weld rhestr o gynigion drafft ar gyfer y gyllideb a amlinellwyd yn y llyfryn ymgynghori.

Negeseuon Allweddol	Ein Hadborth
<p>Yr Amgylchedd:</p> <ul style="list-style-type: none">• Cynnig gyda'r lefel uchaf o gytundeb: Cynnal a chadw Tiroedd (68% yn cytuno 20% yn anghytuno)• Cynigion gyda'r lefel isaf o gytundeb: Cyfleusterau cymunedol (35% yn cytuno, 53% yn anghytuno) Ail-lunio gwasanaethau parciau (42% yn cytuno, 39% yn anghytuno) Gwasanaethau Bws Cymhorthdal (50% yn cytuno, 38% yn anghytuno) <p>Prif Sylwadau :</p> <ul style="list-style-type: none">• Pryderon ynglŷn â chael gwared â hebryngwyr croesfannau ysgol yn peryglu risgiau diogelwch a dylid asesu hyn a threfnu camau gweithredu adferol megis defnyddio gwirfoddolwyr, staff ysgolion, croesfannau pelican neu oleuadau traffig.• Mae meysydd chwarae yn gyfleusterau pwysig sy'n galluogi plant a phobl ifanc i chwarae a chymdeithasu yn yr awyr agored.• Mae parciau yn bwysig er mwyn gwella mynediad at gefn gwlad/awyr agored er lles iechyd ac addysg ac os gostyngir y diogelwch gallai gynyddu trosedd a fandaliaeth.	<ul style="list-style-type: none">• Mae Hebryngwyr Croesfannau Ysgol yn Wasanaeth Dewisol gan y Cyngor, gan olygu gwasanaeth nad oes yn rhaid i'r Cyngor ei ddarparu yn ôl cyfraith. Mae 22 swydd Hebryngwyr Croesfannau Ysgol yn y Fwrdeistref Sirol. Dros y misoedd diwethaf mae'r Cyngor wedi rhoi cynnig i Gynghorau Cymuned ariannu darparu hebryngwyr. Rydym yn cyrraedd yr adeg pan fydd y mwyafrif o'r hebryngwyr yn cael eu hariannu gan eu Cyngor Cymuned o 2014/15 ymlaen, gydag un neu ddau o Gynghorau Cymuned heb wneud penderfyniad hyd yn hyn. Bydd hyn yn sicrhau fod y gwasanaeth hebryngwyr croesfannau ysgol yn parhau. Dros y blynyddoedd diwethaf rydym wedi gosod amrywiaeth o fesurau i wella diogelwch yn yr ardaloedd hyn gan gynnwys croesfannau pelican a lleddfau traffig.• Mae meysydd chwarae yn wasanaeth dewisol gan y Cyngor, gan olygu gwasanaeth nad oes yn rhaid i'r Cyngor ei ddarparu yn ôl cyfraith. Dros y saith mis diwethaf mae'r Cyngor wedi bod yn gweithio gyda'r Cynghorau Cymuned i drafod rheoli a chynnal a chadw meysydd chwarae dros y flwyddyn nesaf. Cafwyd cytundeb gyda bron yr holl Gynghorau Cymuned o ran dull o gadw'r meysydd chwarae ar agor y flwyddyn nesaf. Bydd hyn yn cynnwys naill ai bod y Cynghorau Cymuned yn talu CBSW i gynnal a chadw meysydd chwarae neu'n trosglwyddo rhai o'r meysydd chwarae i'r Cynghorau Cymuned (yn amodol ar y gymeradwyaeth priodol). Bydd y Cyngor hefyd yn parhau i gynnal a chadw meysydd chwarae yn y Fwrdeistref Sirol sydd o fewn amodau grant. Bydd rhai o'r meysydd chwarae hen ac o ansawdd gwael yn cael eu newid i ofod agored gan dynnu'r hen

<ul style="list-style-type: none"> • Safbwyntiau cryf y byddai gostwng cymhorthdal bysiau yn ynysu cymunedau mewn cymunedau gwledig a chael effaith andwyol ar unigolion sy'n dibynnu ar fysiau fel cludiant - i gyrraedd a dychwelyd o'r gwaith, yr henoed, pobl ifanc, pobl ag anableddau a chartrefi gydag incwm is. • Gallai cymunedau, gwirfoddolwyr ac unigolion ar wasanaeth cymunedol gefnogi glanhau strydoedd a chynnal a chadw tiroedd – gallai lleihau'r gwasanaethau effeithio ar edrychiad yr ardal, gan droi ymwelwyr o'r ardal ac annog mwy o lanast. 	<p>offer.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Bydd yr holl barciau'n aros yn agored. Ond er mwyn cyflawni'r arbedion bydd angen gostwng nifer y digwyddiadau a gweithgareddau sy'n cael eu trefnu yn y parciau. Mae'r Cyngor yn gweithio gyda grwpiau cymunedol ar hyn o bryd i ganfod sut y maent yn dymuno cefnogi er mwyn parhau. Er enghraifft, mae Cyngor Cymuned Offa wedi cytuno i gefnogi costau diogelwch Parc Bellevue. • Cynhaliodd y Cyngor ymgynghoriad pellach yn ystod mis Ionawr 2014 ynglŷn â diddymu cymhorthdal i weithredwyr bysiau masnachol tuag at gostau darparu gwasanaethau. Roedd hyn yn ystyried y llwybrau taith a effeithir arnynt ac yn trafod cynigion manwl gydag amrywiaeth o fudd-ddeiliaid o ddefnyddwyr gwasanaeth bws, gweithredwyr, awdurdodau cyfagos a busnesau. Mae'r cyngor yn diddymu cymhorthdal i weithredwyr bysiau masnachol, ond yn parhau i weithio'n agos gyda'r gweithredwyr bysiau er mwyn lleihau'r effaith ar y gwasanaethau. • Bydd gostyngiad o 10% ar gyfer glanhau strydoedd a gostyngiad cam wrth gam o 50% ar gyfer cynnal a chadw tiroedd. Bydd hyn yn golygu y bydd y gwair yn y gofodau agored gryn dipyn yn hirach nag ar hyn o bryd. Os bydd Cynghorau Cymuned neu gymunedau'n dymuno cadw'r gwair yn fyrrach yn eu hardaloedd, bydd modd iddynt wneud hynny, yn amodol ar drefniadau gweithio diogel. Bydd gweledd priffyrdd ac ardaloedd o gwmpas cyffyrdd yn parhau i gael eu cynnal a'u cadw er mwyn sicrhau nad yw diogelwch yn cael ei beryglu.
<p>Tai:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cynnig gyda'r lefel uchaf o gytundeb – llety dros dro i bobl ddigartref (74% yn cytuno, 14% yn anghytuno) • Cynnig gyda'r lefel isaf o gytundeb – cefnogi pobl (53% yn cytuno, 30% yn anghytuno) <p>Prif Sylwadau :</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae Llywodraeth Cymru yn darparu grant i'r Cyngor o £5.5miliwn i ddarparu gwasanaethau cefnogi pobl ac mae'r Cyngor yn cyfrannu £700,000 ychwanegol. Bydd y Cyngor yn parhau i ddarparu gwasanaethau cefnogi pobl, ond bydd grant Llywodraeth Cymru yn lleihau yn y blynyddoedd sydd i ddod, ynghyd â chyllid y Cyngor, a bydd yn rhaid adolygu'r gwasanaethau yn unol â'r gostyngiad mewn cyllid. Bydd y Cyngor yn ceisio lleihau effaith gostyngiad cyllid wrth ystyried yr opsiynau ar gyfer y dyfodol. • Mae arbedion sy'n gysylltiedig â gwasanaethau digartrefedd yn

<ul style="list-style-type: none"> • Pryderon fod gwasanaethau cefnogi pobl yn cefnogi pobl ddiamddiffyn ac yn gwella ansawdd eu bywydau felly roedd angen cynnal hyn. • Pryderon fod gwasanaethau digartrefedd yn cefnogi pobl ddiamddiffyn ac y byddai unrhyw ostyngiad mewn gwasanaethau'n rhoi pwysau ar ddarparwyr gwasanaeth eraill felly dylid parhau â hyn. 	<p>ymwneud â chynyddu'r canolbwyntio ar atal digartrefedd er mwyn lleihau'r galw am lety dros dro. Rydym wedi bod yn gwneud hyn ers dwy flynedd ac rydym wedi gweld gostyngiad o 45% yn nifer yr unigolion sydd angen eu gosod mewn llety dros dro. Bydd pobl sy'n ddigartref yn parhau i dderbyn llety dros dro, ond bydd yn rhaid i ni ystyried opsiynau sy'n costio llai megis defnyddio tai Cyngor ein hunain yn hytrach na llety drytach.</p>
<p>Gofal Cymdeithasol i Oedolion</p> <ul style="list-style-type: none"> • Roedd 66% o'r ymatebwyr yn cytuno gyda'r ymagwedd ar gyfer Gofal Cymdeithasol Oedolion ac roedd 17% yn anghytuno <p>Prif Sylwadau :</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gofynnwyd cwestiynau ynglŷn ag ansawdd y gofal sy'n cael ei ddarparu gan ddarparwyr allanol ac os byddai o'r un ansawdd a'r gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu'n fewnol. Amlygwyd cymhariaeth costau gwasanaethau mewnol ac allanol hefyd. • Amlygodd yr unigolion bryderon fod angen i'r rhai sydd â'r angen mwyaf barhau i dderbyn gwasanaeth priodol. • Cefnogaeth ar gyfer canolbwyntio ar ofal ataliol, ond pryderon y byddai angen gofal hir dymor hefyd, yn enwedig gyda phoblogaeth sy'n heneiddio, felly efallai nad yw'r arbedion yn realistig 	<ul style="list-style-type: none"> • Mae rheoliadau ariannol y Cyngor yn sicrhau ein bod yn dilyn proses dendro gadarn ar gyfer dewis yr holl ddarparwyr gwasanaeth allanol ac yn cyflawni gwerth am arian Byddwn yn parhau i gynyddu gwerth am arian drwy'r prosesau hyn • Mae cyfran sylweddol o wasanaethau Gofal Cymdeithasol i Oedolion eisoes yn cael eu darparu gan amrywiaeth o ddarparwyr gwasanaeth eraill ar ran y Cyngor. Mae swyddogaeth monitro contractau Gofal Cymdeithasol i Oedolion eisoes wedi'i gryfhau er mwyn sicrhau fod y gwasanaethau sy'n cael eu darparu gan ddarparwyr allanol yn diwallu'r canlyniadau a'r safonau uchel yr ydym am eu cyflawni. • Bydd Gofal Cymdeithasol Oedolion o hyd yn sicrhau fod y rhai sydd fwyaf diamddiffyn yn derbyn gwasanaeth yn seiliedig ar eu hanghenion a aseswyd. • Mae Wrecsam yn parhau i ganolbwyntio ar ddatblygu rhaglen ataliol gadarn sy'n cynnwys gweithio gyda phartneriaid iechyd a'r Trydydd Sector. Gofal Ail-alluogi a chanolradd, Teleiechyd a Teleofal, a chefnogaeth i Ofalwyr yn cynyddu er mwyn sicrhau fod unigolion yn gallu byw'n annibynnol gyn hired â phosibl. Bydd y cleientiaid hynny sydd angen cefnogaeth/gofal arbenigol/tymor hir yn parhau i gael gwasanaethau yn seiliedig ar eu hasesiad anghenion. Bydd y datblygiadau hyn yn cynorthwyo i reoli galw'r boblogaeth sy'n heneiddio o fewn y gyllideb sydd ar gael.
<p>Dysgu Gydol Oes:</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r Cyngor yn darparu gwasanaeth cerddoriaeth allgyrsiol ganolog drwy gyfuniad o sesiynau wythnosol yn yr ysgolion a chymryd rhan yn yr ysgol a grwpiau cerddoriaeth y Sir. Mae'r

<ul style="list-style-type: none"> • Cynnig gyda'r lefel uchaf o gytundeb: Canolfan Hyfforddiant ITEC (85% yn cytuno, 6% yn anghytuno) • Cynigion gyda'r lefel isaf o gytundeb: Cymhorthdal ychwanegol i ysgolion (49% yn cytuno, 37% yn anghytuno) <p>Prif Sylwadau :</p> <ul style="list-style-type: none"> • Safbwynt cryf fod cerddoriaeth allgyrsiol yn hyrwyddo datblygu cerddoriaeth, hyder, sgiliau cymdeithasol ac addysg, ac yn chwarae rôl allweddol i ddysgu felly mae angen parhau â hyn. • Pryderon na allai'r ysgolion ymdopi â gostyngiad mewn cyllid ar gyfer cerddoriaeth allgyrsiol, felly byddai'r gwasanaethau'n lleihau ac ar gael ar gyfer y rhai sy'n gallu talu'n unig. 	<p>gwasanaeth yn costio £516,000 y flwyddyn i'w ddarparu. Mae'r mwyafrif o'r costau hyn yn cael eu diwallu gan yr ysgolion, gyda £116,000 o gymhorthdal gan y Cyngor tuag at gostau darparu'r gwasanaeth. Bydd y cymhorthdal yn cael ei ddiddymu, ond drwy gyfuniad o arbedion effeithlonrwydd a chynnydd bychan yn y costau i'r ysgolion gallai hyn ganiatáu fod gwasanaethau cerddoriaeth allgyrsiol cyfredol yn parhau.</p>
<p>Gwasanaethau Atal a Gofal Cymdeithasol Plant:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Roedd 70% o'r ymatebwyr yn cytuno gyda'r ymagwedd ar gyfer Gofal Cymdeithasol ac roedd 14% yn anghytuno <p>Prif Sylwadau :</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gellir gwella'r gefnogaeth gan gynyddu'r canolbwyntio ar wasanaethau atal ac awgrymiadau ar gyfer cydweithio rhwng y Cyngor, y Trydydd Sector a'r Sector Ffydd. • Safbwynt cryf yn erbyn unrhyw ostyngiad yng nghyllid y Venture - mae'n darparu gwasanaethau ataliol/cefnogaeth bwysig, ac ar gyfer nifer o bobl ifanc/teuluoedd dyma'r unig le y gallant droi ato. 	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r Cyngor yn darparu cyllid i the Venture er mwyn darparu gweithgareddau adloniant i deuluoedd a chymorth i reoli anawsterau byr dymor. Mae'r contract penodol hwn yn dod i ben fis Mawrth 2014 ac ni fydd y contract yn cael ei adnewyddu. Fodd bynnag bydd y Cyngor yn parhau i ddarparu cyllid i 'The Venture' yn unol â'r contractau eraill sy'n parhau. • Lle bo'n briodol bydd y Cyngor hefyd yn parhau i ddefnyddio cyllid grant i ddarparu gwasanaethau anstatudol i gynorthwyo teuluoedd i ddatblygu eu sgiliau a rheoli amrywiaeth o ddigwyddiadau bywyd bob dydd.
<p>Lles Cymunedol a Datblygu:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cynnig gyda'r lefel uchaf o gytundeb: Gweithgareddau Gefeillio (88% yn cytuno, 6% yn anghytuno) 	<ul style="list-style-type: none"> • O gofio'r diddordeb cyhoeddus cryf yn nyfodol Canolfan Hamdden Plas Madoc, cynhaliwyd ymgynghoriad pellach gyda chwsmeriaid a phartion cyfrannog eraill ar ôl yr ymgynghoriad ailffurfio gwasanaethau i gasglu rhagor o wybodaeth i lywio'r cynigion.

- Cynigion gyda'r lefel isaf o gytundeb:
Adolygiad llyfrgelloedd (38% yn cytuno, 50% yn anghytuno)
Adolygiad hamdden(41% yn cytuno, 46% yn anghytuno)
Canolfannau cymunedol (45% yn cytuno, 43% yn anghytuno)

Prif Sylwadau :

- Mynegodd nifer safbwynt cryf yn erbyn cau Canolfan Hamdden a Gweithgareddau Plas Madoc.
- Pryderon ynglŷn ag effaith cymdeithasol ehangach cau cyfleusterau megis canolfannau hamdden, llyfrgelloedd a chanolfannau cymunedol - gallai rhannu adeiladau cymunedol liniaru'r anghenraid i gau lleoliadau.
- Roedd y mwyafrif o'r sylwadau'n cefnogi toriadau i weithgareddau gefeillio ac yn cwestiynu gwerth gefeillio.

Dywedodd yr adborth wrthym fod yna wrthwynebiad cryf i gau Plas Madoc gan ddefnyddwyr y ganolfan, ond dim gwrthwynebiad mawr i'r cynigion ar gyfer y canolfannau eraill fel y Byd Dŵr (ar wahân i ofid nad oedd cyfleuster i'w ddisodli'n cael ei gynnig ym Mhlas Madoc).

- Yn anffodus, oherwydd y diffyg costau rhedeg uchel iawn (£2.49 y pen fesul ymweliad) a'r costau yr oedd eu hangen i'r dyfodol i gynnal canolfan Plas Madoc a'i chadw'n ddiogel i'w defnyddio, bydd y Cyngor yn gorfod bwrw ymlaen i'w chau. Fodd bynnag, mae'r Cyngor wedi ymestyn y cyfnod i fynegi diddordeb i drosglwyddo'r ganolfan i fenter gymdeithasol yn y gymuned/ ar y cyd cyn i'r gwaith dymchwel ddechrau tan 1 Hydref 2014. Os na ellir cadarnhau menter felly a bod y ganolfan yn cael ei dymchwel a'r safle ei waredu, bydd y Cyngor yn edrych ar ddewisiadau i ail-fuddsoddi rhywfaint o'r derbyniad cyfalaf mewn cyfleusterau cymunedol llai yn ardal Plas Madoc.
- Bydd **Byd Dŵr** yn cael ei gynnal hyd nes y gellir adeiladu Canolfan Hamdden a Gweithgareddau newydd ar gyfer Wrecsam. Bydd y ganolfan newydd yn cynnwys pwll nofio 25m, 8 lôn, dŵr hamdden a champfa a bydd yn cael ei dylunio i fynd i'r afael â phryderon a fynegwyd yn yr ymgynghoriad gan ddefnyddwyr Plas Madoc mewn perthynas â mynediad i ddefnyddwyr anabl.
- Mae'r Cyngor wedi bod yn gweithio gyda'r Cynghorau Cymuned i drafod cyllid gan neu drwy drosglwyddo **Canolfannau Cymunedol** i'r Cyngor Cymuned perthnasol neu'r grwpiau cymunedol â diddordeb. Pan fo Canolfannau Cymunedol wedi'u lleoli mewn ysgolion mae'r Cyngor wedi bod yn trafod eu trosglwyddo i'r ysgol berthnasol. Pan nad oedd hyn yn bosibl, mae'r Cyngor wedi cynnig y cyfle i drosglwyddo Canolfannau Cymunedol i unrhyw grwpiau gwirfoddol â diddordeb. O ganlyniad bydd y mwyafrif yn cael eu hariannu gan Gynghorau Cymuned, ond bydd tua pedwar neu bump o'r canolfannau'n cau.
- Mae'r Cyngor wedi cytuno gostyngiad cyfartalog yn oriau agor 19% o'r holl **lyfrgelloedd** ac yn ystyried opsiynau gwahanol ar gyfer darparu gwasanaeth Llyfrgell Brymbo a Gresfordd i liniaru'r angen i gau'r llyfrgelloedd hyn. Mae hyn yn cynnwys cyflwyno cais cyllid i

	<p>CyMAL er mwyn adleoli Brymbo, gwro'r llyfrgell deithiol a thrafodaethau gyda chymunedau Gresffordd a Marford i hwyluso datrysiad cymunedol ar gyfer darparu gwasanaethau llyfrgell yn yr ardal.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae'r Cyngor hefyd yn ymchwilio opsiynau lleoli canolfannau cymunedol a chyfleusterau lleol eraill megis llyfrgelloedd lle bo'r modd ac mae'n achosi arbediad cyllidebol.
<p>Asedau a Datblygu Economaidd</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cytundeb uchel gyda chynnig cefnogaeth fusnes (81% yn cytuno, 5% yn anghytuno) a chynnig arlwyio mewn ysgolion (81% yn cytuno, 11% yn anghytuno) <p>Prif Sylwadau :</p> <ul style="list-style-type: none"> • Pryderon na ddylid cyfaddawdu ansawdd a safon prydau ysgol – mae'r plant angen bwyd ffres, iach o gynhwysion ansawdd da / prydau ysgol yn hanfodol ar gyfer rhai plant a theuluoedd. • Cefnogi busnesau lleol yn bwysig ar gyfer yr economi leol ac yn rhywbeth y dylai'r Cyngor ei wneud, yn bennaf er mwyn cynorthwyo i adfywio canol y dref. 	<ul style="list-style-type: none"> • Arbedion yn ymwneud ag arlwyio mewn ysgolion yn canolbwyntio ar leihau gwastraff a gwella effeithlonrwydd y gwasanaeth fel rhan o broses gwelliant parhaus. Mae gan y Cyngor ddyletswydd statudol i sicrhau fod prydau ysgol yn diwallu safonau maeth. Mae'n ymroddedig i hyrwyddo bwyta'n iach mewn ysgolion ac ni fydd yr arbediad hwn yn effeithio ar ansawdd y bwyd a'r diod sy'n cael eu darparu. Mae'r Cyngor hefyd yn parhau i gefnogi ysgolion i ddatblygu ymagwedd ysgol gyfan at fwyta'n iach drwy Gynllun Ysgolion Iach Wrecsam. • Un o flaenoriaethau'r Cyngor yw canolbwyntio ar wella'r economi lleol. Mae'r Cyngor yn darparu rhaglenni cefnogaeth fusnes o dan gontract i Llywodraeth Cymru. Mae'n defnyddio unrhyw incwm a geir o hyn i ddarparu amrywiaeth ehangach o gefnogaeth i fusnesau lleol sy'n dymuno sefydlu ac ymestyn. Nid yw'r arbediad yn effeithio ar y gefnogaeth sy'n cael ei chynnig, dim ond y modd y mae'n cael ei ariannu. Mae'r Cyngor hefyd yn cydnabod y newidiadau sylweddol sy'n digwydd i ganol tref Wrecsam ers dechrau effaith y dirwasgiad yn 2008. Gan weithio gyda pherchnogion tir, masnachwyr a budd-ddeiliaid allweddol eraill, mae'r Cyngor yn ceisio cynorthwyo canol y dref i drawsnewid drwy greu cyfleoedd preswyl a hamdden newydd a lleihau'r ddibyniaeth ar fanwerthu – gan fod arferion siopa yn parhau i newid ffurf strydoedd y DU. Mae hwn yn brosiect hir dymor ond yn un sydd wedi derbyn hwb yn dilyn y cyhoeddiad gan Lywodraeth Cymru fod y Cyngor wedi bod yn llwyddiannus yn derbyn cyllid cyfalaf o dros £10miliwn dros y tair blynedd nesaf i gefnogi'r broses o newid.
<p>Gwasanaethau Cefnogi</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Byddwn yn parhau â'r cynigion ar gyfer arbedion gwasanaethau cefnogi ar gyfer blwyddyn ariannol 2014/15. Yn ystod yr heriau

- Nifer fawr yn cytuno gyda'r holl gynigion gwasanaethau cefnogi:

Caffael (92% yn cytuno, 2% yn anghytuno)

Post (92% yn cytuno, 2% yn anghytuno)

Cyfieithu (92% yn cytuno, 3% yn anghytuno)

Cyllid Cyfalaf (90% yn cytuno, 2% yn anghytuno)

Cyfathrebu ac Ymgynghori (90% yn cytuno, 5% yn anghytuno)

Treth Carbon (83% yn cytuno, 5% yn anghytuno)

Diwygio Lles (81% yn cytuno, 5% yn anghytuno)

Ffi Cerdyn Credyd (71% yn cytuno, 17% yn anghytuno)

ariannol sy'n wynebu'r Cyngor dros y blynyddoedd sydd i ddod byddwn yn blaenoriaethu'r rhai mwyaf diamddiffyn ac yn ceisio sicrhau fod gwasanaethau'r rheng flaen yn diwallu anghenion ein pobl. Felly byddwn yn parhau i edrych ar ein gwasanaethau cefnogi a'r modd y maent yn cael eu darparu i barhau i ganfod arbedion ac effeithlonrwydd yn y meysydd hyn. Mae hyn yn cynnwys:

- Gwella'r modd y mae'r Cyngor yn prynu nwyddau a gwasanaethau
- Lleihau cost anfon a thrin post.
- Gweithio mewn partneriaeth gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy i ddarparu'r datrysiad mwyaf cost effeithlon ar gyfer gwasanaeth cyfieithu Cymraeg allanol
- Gwella rheoli buddsoddiadau'r Cyngor a benthyciadau ledled y Cyngor.
- Lleihau cost cylchgrawn Connect a Phanel Dinasyddion y Cyngor
- Cydnabod effeithlonrwydd ynni gwell y Cyngor a lleihau byrdwn Treth Carbon.
- Alinio cyllideb y Cyngor gyda chost gyfredol Cynllun Llywodraeth Cymru ar gyfer Gostyngiad Trethi
- Cyflwyno ffi 2.5% ar gyfer taliadau cerdyn credyd o'r 1 Ebrill 2014

Trawsbynciol

- Nifer fawr yn cytuno gyda'r holl gynigion trawsbynciol:
Fflyd Cerbydau (89% yn cytuno, 4% yn anghytuno)
Asedau cymunedol (88% yn cytuno, 3% yn anghytuno)
Gweithio darbodus (77% yn cytuno, 7% yn anghytuno)
Gweithio symudol (77% yn cytuno, 9% yn anghytuno)
- Ychydig yn llai yn cytuno gyda chynnig costau'r gweithlu (62% yn cytuno, 20% yn anghytuno)

Prif Sylwadau :

- Safbwyntiau cryf y dylai'r Cyngor leihau costau'r uwch reolwyr
- Pryderon ynglŷn ag effaith o ganlyniad i ddiswyddo – diweithdra lleol, lleihau darpariaeth gwasanaeth, colli arbenigedd, cynyddu llwyth gwaith y staff – awgrymu lleihau diswyddo hanfodol
- Gellir gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y gweithlu – gwell rheolaeth, lleihau oriau gwaith, treuliau, amser hyblyg, tâl salwch, parcio a rhewi cyflog.
- Dylid gwerthu/ailldatblygu adeiladau dros ben yn lle eu gadael yn wag, ond roedd nifer fechan o'r farn y dylid aros ychydig er mwyn i werth y farchnad wella.

- Byddwn yn parhau â'r cynigion ar gyfer arbedion **trawsbynciol** ar gyfer blwyddyn ariannol 2014/15. Mae'r Cyngor yn ymroddedig i ddarparu prosiectau trawsbynciol fydd yn darparu arbedion ac effeithlonrwydd ar draws y sefydliad. Mae hyn yn cynnwys:
 - Lleihau cost ein gweithlu yn unol â'r cynlluniau i ail-lunio gwasanaethau.
 - Adolygu'r holl wasanaethau ar draws y sefydliad i ganfod dulliau mwy effeithlon o weithio, lleihau gwastraff a gwella'r gwasanaethau ar gyfer y rhai sy'n eu derbyn.
 - Symud i ddull symudol o weithio i leihau pwysau ar ofod swyddfa a gadael adeiladau swyddfa
 - Gwella effeithlonrwydd fflyd cerbydau.
 - Canfod cyfleoedd i rannu adeiladau cymunedol ar gyfer amrywiaeth o weithgareddau
- Yn dilyn blynyddoedd o ail-lunio gwasanaethau mae'r Cyngor wedi parhau i leihau'r **Uwch Reolwyr**. Mae gennym yn awr un o'r strwythurau rheoli awdurdod lleol lleiaf yng Nghymru, gyda phrif weithredwr, tri chyfarwyddwr ac wyth pennaeth adran. Mae'n hanfodol fod gan yr awdurdod ddigon o adnoddau o'r ansawdd cywir i arwain y newidiadau i'r gweithlu a'r gwasanaethau o ganlyniad i doriadau cyllid na ragwelwyd.
- Er bod **gostyngiadau mewn staff** yn anochel dros y blynyddoedd sydd i ddod rydym yn ceisio lleihau'r effaith ar ein gweithwyr cyflogedig drwy fesurau gwirfoddol ynghyd â lleihau'r effaith ar wasanaethau'r rheng flaen trwy wella effeithlonrwydd, lleihau'r holl wastraff a lleihau'r gweithlu yn unol â'r cynlluniau i ail-lunio'r gwasanaethau.
- Mae gan y Cyngor nifer o adolygiadau ar waith ar hyn o bryd yn edrych ar gyfleoedd i wella effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd darpariaeth gwasanaeth. Mae un prosiect o'r enw **Dyfodol Cyflogaeth** yn adolygu meysydd yn ymwneud â chostau'r gweithlu.
- Mae gan y Cyngor Polisi Safonau a Gweithdrefnau Eiddo i sicrhau fod

	<p>eiddo sy'n wag ac nad oes ei angen ar gyfer unrhyw ddefnydd gwasanaeth arall yn cael ei ddiogelu a'i baratoi ar gyfer marchnata. Yr unig sefyllfaoedd lle na fyddai eiddo'n cael ei werthu neu ei farchnata fyddai:</p> <ul style="list-style-type: none"> - os oes galw gan wasanaeth arall - Byddai gwaredu'r safle yn effeithio/ cyfaddawdu safle neu wasanaeth arall y Cyngor - Os oes unrhyw gyfyngiadau i rwystro'r Cyngor rhag gwneud hynny, megis cyfamodau cyfreithiol, neu - Nid oes diddordeb yn yr eiddo gan y farchnad.
<p>Arall</p> <ul style="list-style-type: none"> • Dylai'r Cyngor leihau nifer y Cynghorwyr a'r costau perthnasol • Dylai'r Cyngor leihau neu gael gwared â rôl y Maer 	<ul style="list-style-type: none"> • Ni all y Cyngor adolygu Aelodau'r Cyngor eu hunain, yn ôl cyfraith cyfrifoldeb Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru yw hyn. Mae Adran 29 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) Cymru 2013 yn rhoi dyletswydd ar y Comisiwn i adolygu trefniadau etholiadol ar gyfer pob ardal Awdurdod Lleol o leiaf unwaith bob deng mlynedd. Mae trefniadau etholiadol prif ardal Awdurdod Lleol yn cael eu diffinio yn Adran 29 (9) o'r Ddeddf ac yn cynnwys, ymysg pethau eraill, ystyried nifer aelodau'r cyngor. • Mae'r amrywiaeth o Lwfansau a threuliau Aelodau, ac unrhyw gynnydd perthnasol, hefyd yn cael eu penderfynu'n genedlaethol gan Banel Tâl Annibynnol Cymru. • Mae rôl Cadeirydd y Cyngor neu'r Maer yn cael ei gynnwys yn Adran 3 Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'n nodi fod yn rhaid i'r holl awdurdodau lleol ethol Cadeirydd yn flynyddol ac fel Bwrdeistref Siartredig rydym yn defnyddio'r gair 'Maer' ar gyfer y rôl. Mae swyddfa Cadeirydd neu Maer Dinesig yn elfen bwysig o strwythur

	<p>Ilywodraethu'r cyngor ac yn wyneb cyhoeddus yr awdurdod. Yn rhinwedd Adran 5 o Ddeddf 1972 mae'n rhaid i'r Cyngor benodi Is-Gadeirydd neu Dirprwy Faer yn flynyddol. Fel y gwnawn gyda'r holl wasanaethau, rydym yn ceisio sicrhau fod y rôl yn effeithlon ac yn gost effeithiol, a byddwn yn parhau i wneud hyn. Gwnaed arbedion yn y gyllideb ddinesig dros y blynyddoedd diwethaf, ac mae arbedion pellach yn cael eu cynnig ar gyfer y flwyddyn ariannol sydd i ddod a byddwn yn parhau i ganfod arbedion yn y maes hwn fel yr holl wasanaethau gan gynnal y gofynion statudol.</p>
--	--

Atodiad 1: Cynigion drafft ar y gyllideb a amlinellwyd yn y llyfryn ymgynghori

(AMG) Yr Amgylchedd
Cyfleusterau Cymunedol – Mae'r Cyngor ar hyn o bryd yn darparu nifer o wasanaethau cymunedol dewisol ledled y Fwrdeistref Sirol gan gynnwys hebryngwyr croesfannau ysgol, meysydd chwarae a chyfleusterau cyhoeddus gwledig. Cynigir atal y cyllid ar gyfer y gwasanaethau hyn, a allai olygu bod angen iddynt gau oni bai y gwneir trefniadau eraill megis trosglwyddo gwasanaethau i Gyngorau Cymuned. Amcangyfrifir y gallai hyn arbed £182,000.
Cynnal a Chadw Priffyrdd – Cynigir ailflaenoriaethu gwaith cynnal a chadw priffyrdd wedi'i gynllunio ac adweithiol. Bydd cyllid ar gyfer cynnal a chadw priffyrdd yn y dyfodol yn cael ei benderfynu ar sail yr ardaloedd y mae angen rhoi sylw iddynt fwyaf a lle bydd buddsoddi'n arwain at y manteision mwyaf o ran sicrhau bod y Cyngor yn cyflawni'i gyfrifoldebau a blaenoriaethau statudol. Amcangyfrifir y gallai hyn arbed £172,000
Glanhau Strydoedd – Cynigir gostwng amllder y gwasanaeth glanhau strydoedd a ddarperir ar hyn o bryd ledled y Fwrdeistref Sirol. Bydd y gwasanaeth yn cael ei gyflenwi ar sail fwy adweithiol ac yn rhoi blaenoriaeth i'r materion hynny y mae angen ymdrin â hwy fwyaf. Amcangyfrifir y gallai hyn arbed £139,000
Cynnal a Chadw Tiroedd – Cynigir gostwng amllder gwaith torri gwair yn sylweddol ar draws manau agored, ymylon ac ardaloedd tai yn y Fwrdeistref Sirol. Bydd amllder y gwaith torri gwair yn y mwyafrif o fannau agored, ymylon ac ardaloedd o amgylch tai'n cael ei ostwng. Bydd hyn hefyd yn dwyn manteision o ran bioamrywiaeth i fywyd gwyllt. Amcangyfrifir y gallai hyn arbed £256,000.
Ail-lunio Gwasanaethau Parciau – Cynigir lleihau gwaith cynnal a chadw a diogelwch, yn ogystal â nifer yr ymweliadau gan ysgolion a'r digwyddiadau sy'n cael eu cynnal yn y parciau ar hyn o bryd. Amcangyfrifir y gallai hyn arbed £100,000.
Gwasanaethau Bysiau Cymorthdaledig – Cynigir atal cymorthdaliadau y mae'r Cyngor yn eu darparu ar hyn o bryd ar gyfer gweithredwyr bysiau masnachol tuag at gost darparu nifer fach o wasanaethau bysiau ledled y Fwrdeistref Sirol. Gallai hyn arwain at ostyngiad yn nifer ac amllder y gwasanaethau arbennig hyn oni bai fod gweithredwyr bysiau masnachol yn gallu dod o hyd i ffordd arall o weithredu'r gwasanaethau i leihau'r effaith. Amcangyfrifir y gallai hyn arbed £495,000.
(TGC) Tai a Gwarchod y Cyhoedd
Llety Dros Dro i Bobl Ddigartref – Cynigir canolbwyntio'n fwy ar atal digartrefedd a lleihau'r defnydd o lety dros dro megis llety gwely a brecwast a thai rhent preifat. Amcangyfrifir y gallai hyn arbed £100,000.
Tir Halogedig – Cynigir lleihau graddfa'r ymchwiliadau rhagweithiol i safleoedd a gwaith arall y mae'r Cyngor yn ei wneud ar hyn o bryd fel rhan o strategaeth tir halogedig Wrecsam (megis hen safleoedd tirlenwi a diwydiannol). Bydd gwaith adweithiol yn parhau i fod yn flaenoriaeth yn ogystal â sicrhau bod safleoedd yn cael eu hadfer trwy'r gyfundrefn gynllunio a bod daliadau tir y Cyngor ei hun yn cydymffurfio â gofynion cyfreithiol. Amcangyfrifir y gallai hyn arbed £105,000 i ni.
Cefnogi Pobl – Mae'r Cyngor ar hyn o bryd yn darparu cyllid tuag at ystod o wasanaethau sy'n rhoi cymorth i bobl fyw yn y gymuned. Cynigir adolygu'r trefniadau cyllido hynny i wella effeithlonrwydd a sicrhau bod gwasanaethau'n targedu'r bobl fwyaf agored i niwed. Bydd cronfeydd wrth gefn yn cael eu defnyddio i leihau unrhyw effaith y bydd yr arbedion hyn yn ei chael yn y tymor byr. Amcangyfrifir y gallai hyn arbed £300,000.
(GCO) Gofal Cymdeithasol i Oedolion
Bydd y Cyngor yn parhau i flaenoriaethu gwasanaethau ar gyfer y bobl fwyaf agored i niwed, ond byddwn yn ceisio cyflawni arbedion effeithlonrwydd yn y maes yma trwy gyfuniad o wella gwerth am arian o fewn gwasanaethau a ddarperir gan y Cyngor a chyda darparwyr gwasanaethau allanol. Bydd hyn yn cynnwys cynyddu ein ffocws ar ailalluogi pobl ac arnynt angen cymorth er mwyn eu helpu i barhau i fod yn annibynnol a sicrhau mai'r cymorth y mae pobl yn ei dderbyn yw'r cymorth sydd fwyaf priodol i'w hanghenion a'i fod yn seiliedig ar ddeilliannau clir. Bydd ffocws cynyddol ar atal a chymorth cynnar er mwyn helpu i reoli'r galw am wasanaethau a lleihau'r angen i bobl dderbyn cymorth mwy hirdymor gan wasanaethau traddodiadol. Mae'r gwasanaeth hefyd yn cydweithio'n agos gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ac yn dymuno newid i fwy o gydweithio ar wasanaethau a chyllidebau, yn enwedig ym maes gofal canolradd, i atal derbyniadau i'r ysbty ac i hwyluso rhyddhad cynnar. Ar y cyfan cynigir cyflawni arbedion effeithlonrwydd o tua £1.6 miliwn ar draws y gwasanaeth Gofal Cymdeithasol i Oedolion yn 2014/15.

(DGO) Dysgu Gydol Oes
Canolfan Hyfforddi ITEC – Cynigir creu incwm ychwanegol ar gyfer canolfan hyfforddi'r Cyngor trwy ddenu busnes a contractau newydd. Amcangyfrifir y gallai hyn arbed £100,000.
Cronfa'r Rhai Nad Ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant (NEET) – Cynigir cael gwared â chronfa arbenigol a neilltuwyd i gychwyn mentrau newydd i helpu i ostwng nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant, gan fod y mentrau hyn bellach yn weithredol. Amcangyfrifir y gallai hyn arbed £65,000.
Darpariaeth Gwasanaeth Ieuenctid Cymraeg – Cynigir darparu gwasanaethau ieuenctid trwy gyfrwng y Gymraeg mewn ffordd fwy cost-effeithiol. Amcangyfrifir y gallai hyn arbed £15,000.
Cymorthdaliadau Ychwanegol i Ysgolion – Yn ogystal â'r gyllideb sydd wedi'i dirprwyo i ysgolion i ddarparu addysg statudol, mae'r Cyngor ar hyn o bryd yn darparu cyllid ychwanegol ar gyfer ysgolion tuag at gost darparu ystod o wasanaethau dewisol megis cerddoriaeth allgyrsiol, a cholli swyddi sy'n gysylltiedig ag ysgolion. Cynigir ymgynghori ag ysgolion ynghylch y gostyngiadau hyn, ac o ganlyniad i hynny efallai y bydd rhai ysgolion yn penderfynu cwrdd â rhai o'r costau hyn o'u cyllideb eu hunain. Amcangyfrifir y gallai hyn arbed £98,000.
(AGC) Gwasanaethau Atal a Gofal Cymdeithasol i Blant
Byddwn yn parhau i flaenoriaethu Gwasanaethau Atal a Gofal Cymdeithasol i Blant ac felly rydym yn cynnig yr arbedion isaf yn y maes yma. Byddwn yn ceisio cyflawni arbedion effeithlonrwydd yn y maes yma trwy gyfuniad o wella gwerth am arian o fewn gwasanaethau a ddarperir gan y Cyngor a chyda darparwyr gwasanaethau allanol. Yn ogystal â hynny byddwn yn cynyddu i'r eithaf y cyllid grant i gyflenwi gwasanaethau sy'n rhoi cymorth i deuluoedd agored i niwed ddatblygu sgiliau i'w helpu i reoli ystod o ddiwyddiadau yn eu bywyd pob dydd. Bydd hyn hefyd yn helpu i reoli'r galw am ein gwasanaethau a lleihau'r angen am gymorth mwy hirdymor. Amcangyfrifir y gallai hyn arbed £141,000.
(LIDC) Lles a Datblygu Cymunedol
Canolfannau Cymunedol – Mae'r Cyngor ar hyn o bryd yn rheoli nifer o ganolfannau cymunedol ledled y Fwrdeistref Sirol. Cynigir atal y cyllid ar gyfer y canolfannau hyn, a all olygu bod angen iddynt gau, oni bai fod trefniadau eraill yn cael eu gwneud megis eu trosglwyddo i gynghorau cymuned neu grwpiau gwirfoddol. Amcangyfrifir y gallai hyn arbed £57,000.
Adolygiad Hamdden – Mae'r Cyngor yn archwilio opsiynau eraill ar gyfer rheoli a gweithredu gwasanaethau hamdden, i ostwng cost darparu'r gwasanaethau hyn, yn ogystal ag adolygu nifer y cyfleusterau y mae'r Cyngor yn eu gweithredu, a allai olygu bod cyfleusterau'n cau. Amcangyfrifir y gallai hyn arbed £400,000.
Adolygiad Llyfrgelloedd – Mae'r Cyngor ar hyn o bryd yn darparu 12 llyfrgell gyhoeddus ledled y Fwrdeistref Sirol. Cynigir archwilio opsiynau i ostwng cost darparu'r gwasanaeth llyfrgelloedd gan gynnwys cwtogi ar yr oriau agor a chau tair llyfrgell gyhoeddus. Amcangyfrifir y gallai hyn arbed £92,000.
Prosiectau Amgylcheddol Mewn Cymunedau – Cynigir atal y cyllid ar gyfer gwaith a chyfleoedd addysgol amgylcheddol mewn cymunedau a ddarperir ar hyn o bryd gan Groundwork. Amcangyfrifir y gallai hyn arbed £57,000.
Gweithgareddau Gefeillio – Cynigir atal ymweliadau a gyllidir i ac o Efeill-siroedd Wrecsam, ond cynnal y cysylltiad â hwy. Amcangyfrifir y gallai hyn arbed £9,000.
(ADE) Asedau a Datblygu Economaidd
Arlwyo mewn Ysgolion – Cynigir gostwng cost y gwasanaeth arlwyo trwy ostwng gwariant ar fwyd, lleihau gwastraff a bod yn fwy effeithlon o ran y ffordd y cyflenwir y gwasanaeth. Amcangyfrifir y gallai hyn arbed £54,000.
Cymorth Busnes – Cynigir defnyddio incwm a enillir o gyflenwi contractau cymorth busnes i alluogi'r Cyngor i helpu busnesau lleol i ddechrau ac ehangu. Amcangyfrifir y gallai hyn arbed £68,000.
(GC) Gwasanaethau Cymorth
Cyfathrebu ac Ymgynghori – Cynigir trefnu bod Cylchgrawn y Cyngor 'Cyswllt' ar gael ar-lein yn bennaf a gostwng yn sylweddol nifer y cylchgronau a ddsberthir, yn ogystal â newid y ffordd yr ydym yn ymgynghori â Phanel Dinasyddion y Cyngor. Amcangyfrifir y gallai hyn arbed £26,000.

Cyfieithu – Byddwn yn gweithio mewn partneriaeth gydag Awdurdod Lleol arall yng Ngogledd Cymru i ddarparu ein holl wasanaethau cyfieithu allanol. Amcangyfrifir y gallai hyn arbed £25,000.
Post – Mae a wnelo'r cynnig hwn â lleihau a gwella effeithlonrwydd o ran trafod a phrosesu post papur ar draws y sefydliad, a gostwng cost anfon post allanol. Amcangyfrifir y gallai hyn arbed £20,000.
Ffi Cardiau Credyd – Cynigir trosglwyddo'r ffi o 2.5% a godir gan ddarparwyr cardiau credyd, am daliadau a wneir i'r Cyngor gan ddefnyddio cerdyn credyd, i'r cwsmer. Amcangyfrifir y gallai hyn arbed £17,000.
Caffael – Mae a wnelo'r cynnig hwn â gwneud gwelliannau i'r ffordd y mae'r Cyngor yn prynu ac yn defnyddio nwyddau a gwasanaethau gan gyflenwyr allanol, i sicrhau gwerth gwell am arian. Amcangyfrifir y gallai hyn arbed £302,000.
Treth Carbon – Mae'r cynnig hwn yn golygu gweithredu ystod o fentrau i leihau ein defnydd o ynni a'n hallyriadau carbon yn unol â Chynllun Rheoli Carbon y Cyngor. Amcangyfrifir y gallai hyn arbed £50,000.
Diwygio Lles – Fe neilltuodd y Cyngor gronfa arbenigol i ategu a gweithredu newidiadau mewn perthynas ag adolygu lles, yn arbennig cynllun gostyngiadau'r dreth gyngor. Mae Llywodraeth Cymru bellach yn darparu cyllid tuag at gynllun gostyngiadau'r dreth gyngor ac felly nid oes angen y cyllid hwn mwyach yn 2014/15. Cynigir atal cronfa arbenigol y Cyngor ar gyfer 2014/15. Amcangyfrifir y gallai hyn arbed £900,000.
Cyllid Cyfalaf – Cynigir gwneud arbediadau mewn perthynas â threfniadau benthyca'r Cyngor. Amcangyfrifir y gallai hyn arbed £500,000.
(T) Trawsbynciol
Costau'r Gweithlu – Gan fod y mwyafrif o'n gwariant yn wariant ar gostau sy'n gysylltiedig â chyflogaeth bydd angen gostwng y costau hyn er mwyn cwrdd â'r toriadau yn y gyllideb. Cynigir gostwng costau'r gweithlu ar y cyfan yn unol â chynlluniau i ail-lunio gwasanaethau trwy gyfuniad o reoli swyddi gwag, colli swyddi'n wirfoddol, ymddeoliad cynnar gwirfoddol, cynyddu i'r eithaf y cyllid grant a ddefnyddir ar gyfer swyddi ac ymarferion ailstrwythuro. Bydd arbedion pellach hefyd yn cael eu gwredu dros y rhaglen bum mlynedd.
Gweithio Darbodus – Cynigir adolygiad o'r holl wasanaethau ar draws y sefydliad cyfan i ganfod ffyrdd mwy effeithlon o weithio a lleihau'r holl wastraff i'r eithaf i wella gwerth am arian. Bydd yr arbedion a amcangyfrifir ar gyfer y prosiect hwn yn cael eu cyfrifo dros flwyddyn gyntaf y rhaglen.
Gweithio Symudol – Mae'r cynnig hwn yn golygu ystyried faint o gyflogaeth allai weithio mewn ffordd fwy symudol, i leihau'r pwysau ar swyddfeydd a'n galluogi i symud allan o unrhyw adeiladau dros ben nad oes mo'u hangen mwyach. Bydd yr arbedion a amcangyfrifir ar gyfer y prosiect hwn yn cael eu cyfrifo dros flwyddyn gyntaf y rhaglen.
Fflyd Cerbydau – Mae'r Cyngor yn defnyddio amrywiaeth o gerbydau i gynnal ein busnes o ddydd i ddydd. Er enghraifft ar gyfer atgyweirio tai, ysgubo strydoedd, casglu gwastraff, cynnal a chadw tiroedd a'r gwasanaethau cymdeithasol. Mae a wnelo'r cynnig hwn â gwella effeithlonrwydd ein fflyd cerbydau. Amcangyfrifir y gallai hyn arbed £200,000 yn 2014/15.
Asedau Cymunedol – Mae'r cynnig hwn yn golygu ystyried adeiladau cymunedol sy'n eiddo i'r Cyngor ac nad ydynt yn eiddo i'r Cyngor ledled y Fwrdeistref Sirol, i ganfod cyfleoedd lle gallai adeiladau gael eu rhannu o fewn cymunedau ar gyfer ystod lawn o weithgareddau, a'i gwneud yn bosib trosglwyddo, gwerthu neu ddymchwel unrhyw adeiladau sydd dros ben neu'n anaddas. Amcangyfrifir y gallai hyn arbed £660,000 dros y rhaglen bum mlynedd.